**City and County of Swansea**

# Minutes of the Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 26 Mehefin 2020 at 11.00 am**

**Present**: Councillor P M Matthews (Cadeirydd) Presided

| **Councillor(s)** | **Councillor(s)** | **Councillor(s)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | N J Davies |
| P Downing | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | L G Thomas | L V Walton |

**Officer(s)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Swyddog Adrannol, Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Apologies for Absence**
Councillor(s): C L Philpott a/ac B J Rowlands

---

**80 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**81 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol, fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 82 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Trwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Hurio Preifat - HGF.

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch y cefndir mewn perthynas â HGF.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd HGF yr amgylchiadau mewn perthynas â'r ardystiadau ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

**Penderfynwyd gwrthod cais HGF i adnewyddu** ei drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Nid oedd y pwyllgor o'r farn bod HGF yn berson addas a phriodol na diogel. Yn ogystal, ni chanfu'r pwyllgor unrhyw reswm eithriadol i wyro oddi wrth ganllawiau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am

**Cadeirydd**